Termau teg ar gyfer gofal

Cartrefi gofal i'r henoed yn y Deyrnas Unedig

Arweiniad i dermau annheg mewn cytundebau, i gartrefi gofal wedi eu noddi'n breifat

Cynnwys

Cytundebau cartrefi gofal	1
Yr hyn y dylid ei ystyried	2
Y cytundeb	3
Yr hyn a ddylai fod yn y cytundeb	4
Beth yw termau annheg?	5
Yr hyn y dylid edrych amdano	6
Ble i gael cyngor	7

Cytundebau cartrefi gofal

Bwriad y daflen hon yw eich helpu chi, neu rywun sy'n eich helpu chi, i benderfynu a yw termau eich cytundeb cartref gofal yn deg. Mae hefyd yn rhoi manylion am leoedd lle y gallwch gael cyngor.

Os yw eich lle mewn cartref gofal yn cael ei ddarparu dan gytundeb rhwng awdurdod lleol a'r cartref, yna mae hawl gennych i ddatganiad o'r termau a'r amodau yn hytrach na chytundeb.

Os ydych yn symud i mewn i gartref gofal a'ch bod chi, neu rywun sy'n eich helpu chi, yn talu'n breifat tuag at y ffïoedd, mae hawl gennych i gytundeb ysgrifenedig ac mae'n rhaid i'r termau a'r amodau fod yn rhai teg. Mae'n ddogfen gyfreithiol sy'n effeithio ar eich dyfodol felly mae'n bwysig sicrhau eich bod yn hapus ag ef ac nad oes unrhyw beth ynddo nad ydych yn fodlon cytuno iddo.

Mae gennych chi a'r cartref gofal hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol. Dylai'r cytundeb fod mewn iaith glir ac mewn fformat sy'n addas ar eich cyfer, fel brint bras, er mwyn i chi wybod yr hyn y gallwch ddisgwyl gan y cartref gofal a'r hyn fydd eich ymrwymiadau. Ni all y cartref gofal ddefnyddio termau annheg na chymryd eich hawliau cyfreithiol i ffwrdd.

Mae'r Swyddfa Masnachu Teg, adrannau safonau masnach a rheoleiddwyr penodol eraill yn gorfodi'r Rheoliadau Termau Annheg mewn Cytundebau Defnyddwyr 1999 ond dim ond llys all benderfynu a yw term yn annheg. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am y cytundeb, cysylltwch â'r adran safonau masnach leol, canolfan gyngor leol neu Ganolfan Cynghori neu ceisiwch eich cyngor cyfreithiol eich hun. Ni all y Swyddfa Masnachu Teg eich cynorthwyo mewn anghydfod preifat na rhoi cyngor unigol, ond gall gymryd camau yn erbyn cartref gofal i atal y defnydd cyffredinol o dermau annheg.

Ceir rhestr o gysylltiadau defnyddiol ar gefn y daflen hon.

Yr hyn y dylid ei ystyried

Bydd cartrefi gofal yn rhoi llyfrynnau neu arweiniadau i chi ar yr hyn y maent yn ei gynnig. Sicrhewch fod y rhain gennych er mwyn i chi feddwl amdanynt a gwneud dewis. Dylent ddweud wrthych am:

_ y ffïoedd y maent yn eu codi, a phryd y maent yn ddyledus
_ y gwasanaethau a ddarperir
_ eich ystafell wely
_ yr ystafelloedd y gallwch eu defnyddio, fel yr ystafell fwyta
_ nifer y lleoedd preswyl
_ darpariaeth ar gyfer anghenion neu ddiddordebau arbennig
_ athroniaeth y cartref
_ cymwysterau a phrofiad y staff
_ unrhyw reolau sydd gan y staff
_ eich hawliau a chyfrifoldebau fel preswylydd
_ unrhyw adroddiad arolygu diweddar
_ sut mae'r preswylwyr yn teimlo am y cartref
_ sut y gallwch gwyno
_ y cyfnod rhybudd
_ beth fydd yn digwydd petai'r cartref yn cau, neu'n cael perchennog newydd
_ y trefniadau fydd eu hangen os bydd eich cyllid yn dod i ben.

Y cytundeb

Dylai termau eich cytundeb fod yn ddigon clir fel nad oes arnoch angen cymorth cyfreithiol i'w deall. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd amser i ddarllen y cytundeb yn ofalus. Gofynnwch i gael ei ddarllen cyn ymweld â'r cartref. Peidiwch â gadael i neb eich rhuthro.
Os nad ydych yn deall rhai o'r geiriau neu ystyr term, gofynnwch. Sicrhewch eich bod yn gwybod beth mae'r cartref gofal yn ei ddarparu am y ffïoedd.

Yr hyn a ddylai fod yn y cytundeb

Mae deddfwriaeth newydd yn golygu bod hawl gennych i gytundeb ysgrifenedig yn nodi termau ac amodau'r cartref gofal. Dylai'r rhain gynnwys:

_ sail eich arhosiad e.e. parhaol, cyfnod prawf neu dros dro
_ gwybodaeth am yr ystafell y byddwch yn ei meddiannu
_ y gofal a'r gwasanaethau, yn cynnwys bwyd, a ddarperir
_ y ffïoedd neu'r taliadau a sut y cânt eu cyfrifo
_ pa mor aml a phryd y mae'r ffïoedd yn ddyledus
_ pwy sy'n talu
_ a oes yna wasanaethau ychwanegol i dalu amdanynt
_ eich hawliau a'ch ymrwymiadau
_ hawliau ac ymrwymiadau y cartref gofal
_ beth sy'n digwydd os bydd rhywbeth yn mynd o'i le
_ y cyfnod rhybudd
_ beth sy'n digwydd os bydd pethau'n newid
_ pwy sy'n gyfrifol os bydd y cytundeb yn cael ei dorri
_ sut bydd y cartref gofal yn cwrdd â'ch gofynion arbennig

Peidiwch â llofnodi tan eich bod yn sïwr o'r hyn y byddant yn ei wneud drosoch chi a hefyd yr hyn a ddisgwylir gennych chi.

Beth yw termau annheg?

Termau a wneir gan y cartref gofal ymlaen llaw yw'r rhain, mewn cytundeb safonol, nad oes gennych ddewis yn eu cylch, ac sy'n rhoi gormod o fantais i'r cartref gofal drosoch chi. Mae'n rhaid i gartref gofal ystyried eich lles chi.

Mae termau annheg yn faglau, sy'n aml wedi'u cuddio yn y manylion. Er enghraifft efallai y byddant:
_ yn ceisio hepgor cyfrifoldebau cyfreithiol y cartref gofal
_ yn ceisio gosod cosbau, cyfyngiadau neu ymrwymiadau annheg arnoch
_ yn aneglur ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i chi ei dalu.

Dylai termau fod yn glir ac yn hawdd eu darllen. Ni ddylai cytundebau ddefnyddio jargon, geiriau anodd nad ydych yn eu deall na brawddegau hir a chymhleth.

Os ydych yn credu bod cartref gofal yn defnyddio term annheg sy'n anfanteisiol i chi, mynnwch gyngor ynghylch dweud hynny wrthynt. Os nad ydych yn sïwr ynghylch term penodol, mynnwch gyngor gan eich adran safonau masnach leol neu gallwch gysylltu â'ch canolfan gyngor leol neu Ganolfan Cynghori (gweler eich cyfeirlyfr lleol). Ceir rhestr o gysylltiadau defnyddiol ar gefn y daflen hon.

Yr hyn y dylid edrych amdano

Gwyliwch am dermau:
_ nad ydynt yn glir am yr hyn sy'n rhaid i chi ei dalu
_ nad ydynt yn glir am ba mor aml y byddwch yn talu
_ nad ydynt yn glir am bwy sy'n gyfrifol am dalu
_ nad ydynt yn cynnwys cyfrifoldeb y cartref gofal am achosi marwolaeth neu anaf
_ nad ydynt yn cynnwys cyfrifoldeb y cartref gofal am ddarparu gwasanaeth
_ nad ydynt yn cynnwys cyfrifoldeb y cartref gofal am ofalu am eich eiddo
_ nad ydynt yn cynnwys cyfrifoldeb y cartref gofal am ddifrodi eich dillad yn y golch
_ nad ydynt yn cynnwys cyfrifoldeb y cartref gofal am unrhyw beth sydd wedi'i argraffu yn y llyfryn
_ sy'n gadael i'r cartref gofal wneud newidiadau sylweddol i'r hyn y mae'n ei gyflenwi heb ymgynghori â chi
_ sy'n gadael i'r cartref gofal newid eich ystafell heb ymgynghori â chi
_ sy'n codi cosbau neu log sy'n afresymol am ffïoedd sy'n or-ddyledus
_ sy'n gadael i'r cartref gofal godi'r ffïoedd yn gyson ac yn fympwyol heb rybudd
_ sy'n gosod cyfyngiadau neu ymrwymiadau arnoch
_ sy'n rhoi'r hawl i'r cartref gofal gadw neu gael gwared ar eich eiddo
_ nad ydynt yn glir am y cyfnod rhybudd sydd ei angen os ydych yn dymuno gadael neu os ydynt hwy'n dymuno i chi adael
_ nad ydynt yn glir am ba mor hir y mae'n rhaid talu'r ffïoedd yn dilyn marwolaeth
_ nad ydynt yn glir am fynediad i'r ystafell yn dilyn marwolaeth
_ sy'n hir ac yn gyfreithiol neu fel arall yn aneglur.

Ble i gael cyngor

Cyngor ar dermau annheg
Adran safonau masnach – gweler o dan Cyngor yn y wybodaeth mewn cyfeirlyfrau lleol
Canolfannau Cynghori neu ganolfannau cyngor lleol – gweler y wybodaeth mewn cyfeirlyfrau lleol
Am fanylion canolfannau cyngor lleol cysylltwch ag Adviceuk, ffôn: 020 7407 4070
Gallwch gwyno am dermau annheg cartref gofal drwy ysgrifennu i'r
Contract Regulation Unit
Office of Fair Trading
Zone 1W, Fleetbank House
2-6 Salisbury Square
London EC4Y 8 JX
ebost: cru@oft.gov.uk
Gallwch gysylltu hefyd â'n llinell gymorth i ddefnyddwyr 08457 22 44 99,
Neu ymweld â'n gwefan yn www.oft.gov.uk

Safonau Gofal
Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, ffôn: 01443 848 450

Cyngor cyffredinol am gartrefi gofal
Age Concern, ffôn: 0800 00 99 66
Cymorth i'r Henoed, ffôn: 0808 800 6565
Counsel and Care, ffôn: 0845 3007 585
sy'n cyhoeddi taflenni ar gartrefi gofal
Elderly Accommodation Counsel, ffôn: 020 7820 1343
Relatives and Residents Association, ffôn: 020 7359 8136
Gwasanaethau Cymdeithasol – gweler y wybodaeth mewn cyfeirlyfrau lleol

Gellir cael rhagor o gopïau o'r daflen hon o'n tŷ postio:

OFT
PO Box 366
Hayes
UB3 1XB
ffôn: 0870 60 60 321
ffacs: 0870 60 70 321
ebost: oft@eclogistics.co.uk

Office of Fair Trading
Fleetbank House
2-6 Salisbury Square
London
EC4Y 8 JX
switsfwrdd: 020 7211 8000
ffacs cyffredinol: 020 7211 8800
llinell gymorth i ddefnyddwyr: 08457 22 44 99
gwefan: www.oft.gov.uk

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatiau â ieithoedd eraill, ar eich cais
Ffoniwch 0870 60 60 321 os gwelwch yn dda

Dim ond arweiniad syml yw'r daflen hon, ac ni ddylid dibynnu arni fel fel datganiad cyflawn o'r gyfraith.
I ddeall eich hawliau â'ch rhwymedigaethau yn llawn, edrychwch ar y gyfraith berthnasol neu cysylltwch â chyfreithiwr.

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Masnachu Teg

Argraffwyd yn y DU ar bapur yn cynnwys 75 y cant o wastraff wedi ei ddefnyddio, a 25 y cant o fwydiad ECF

Rhifyn 01/04 – argraffwyd 01/04/20,000
Côd cynhyrchu OFT688
© Hawlfraint Brenhinol 2004
www.oft.gov.uk